



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 7FED HYDREF, 2020** am **5.00 PM**.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGANIAD O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020, yn rhai cywir.

5 - 16

LLYWODRAETHU AGORED:

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y

Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

17 - 22

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU

[Rhaglen Waith y Cyngor 2020/21](#)

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

6. **DIWEDDARIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn datganiad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn y Fwrdeistref Sirol

7. **RHYBUDD O GYNNIG**

Trafod y Rhybudd o Gynnig isod yn enwau Cynghorwyr Grŵp Plaid Cymru:- y Cynghorwyr S.Evans, P.Jarman, S.Rees Owen, M.Weaver, E.Webster, A.Chapman, H.Fychan, J.Davies, J. Cullwick, G.Davies, K.Morgan E. Griffiths, D.Grehan, J.Williams, A.Cox, E.Stephens, L. Jones:-

Mae Grŵp Plaid Cymru yn galw ar y Cyngor i weithredu er mwyn cefnogi'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r Coronafeirws ac sy'n parhau i ddioddef.

Mae nifer o bobl hŷn yn dioddef o "unigrwydd y cyfnod clo" ac mae'r rheiny sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl, rhieni sengl, yn ogystal â chynhalwyr plant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledau bellach mewn sefyllfa sy'n golygu nad oes modd iddyn nhw fanteisio ar eu rhwydweithiau cymorth neu wasanaethau. Mae'n hollbwysig sylweddoli effaith y Coronafeirws ar y grwpiau sy'n agored i niwed.

Rydyn ni'n galw ar y Cyngor i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i Aelodau ar unwaith. Dylai'r adroddiad gynnwys y cymorth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i grwpiau sy'n agored i niwed, megis y rhai sydd wedi'u nodi yn y rhybudd o gynnig yma, yn ogystal â chynlluniau arfaethedig mewn perthynas â sut mae modd i'r Cyngor fuddsoddi ymhellach a'u cefnogi nhw.

8. MATERION BRYG

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryg yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor